

**TO GYFODOL
DYFODOL**

DYFODOL I'R IAITH

SYLWADAU AR GYFER:

CRAFFU CYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU

Cyswllt:

Ruth Richards

Prif Weithredwr

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiâu cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Croesawn y cyfle hwn i rannu ein sylwadau ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a noder fod yr holl sylwadau canlynol yn ymwneud â blaenoriaethau gwariant ar dwf a ffyniant y Gymraeg:

Gwariant ar dwf addysg cyfrwng Gymraeg

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi ymrwmo i greu miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050. Mae sicrhau twf teilwng a chyfatebol mewn addysg cyfrwng Gymraeg yn gwbl hanfodol er mwyn cyrraedd y nod hwn. Byddwn yn pwysleisio, felly, bod angen cynllunio gwariant digonol a phwrpasol i'r perwyl hwn, gyda sylw penodol i'r canlynol:

i) Sicrhau Gweithlu Addysg Cymwys

Ni fydd modd cynnal twf mewn addysg Gymraeg heb weithlu sy'n gallu dysgu a chynnig cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn mai'r cam cyntaf ac amlycaf yw sicrhau digon o staff sy'n gallu dysgu'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynnal y twf angenrheidiol. Gwyddom ar hyn o bryd nad oes digon o athrawon, gofalwyr na chynorthwyon all ysgwyddo'r dasg.

Byddwn felly yn galw am flaenoriaeth i ariannu ymgyrchoedd recriwtio ymysg siaradwyr Gymraeg yn ogystal â buddsoddi'n sylweddol mewn dysgu a gwella Cymraeg y sawl sydd un ai'n gweithio yn y maes eisoes neu sydd â diddordeb mewn ymuno a'r gweithlu addysg.

ii) Cymorth i ddysgu'r Gymraeg

Dylid felly clustnodi gwariant sylweddol er mwyn sicrhau gwersi Gymraeg i weithwyr y sector addysg. Os yw'r gwariant hwn am gael gwir effaith, yna bydd rhaid iddo gefnogi hyfforddiant, nid yn unig i athrawon, ond hefyd i weithwyr meithrin, cynorthwyon dosbarth a thiworiaid Addysg Bellach ac Uwch er mwyn sicrhau pwyslais cadarn ar y Gymraeg drwy gydol yr yrfa addysg a thu hwnt.

iii) Cwricwlwm sy'n codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Nodwn yn ogystal bod modd cefnogi twf y Gymraeg drwy gyflwyno Cwricwlwm sy'n codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg drwy bynciau allweddol, megis Hanes. Fel mudiad,

credwn fod hwn yn gyfle gwych i feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn hanesyddol ac at y dyfodol. Pwyswn ar y Llywodraeth i ddatblygu corff cyffredin a safonol o wybodaeth ar hanes Cymru gydag adnoddau digonol i gefnogi hyn.

Cymreigio'r Gweithlu a'r Gweithle

Nid o fewn y sector addysg yn unig y mae angen cynyddu defnydd y Gymraeg. Mae meithrin gweithleoedd Cymraeg yn gam amlwg tuag at greu tirwedd gymdeithasol sy'n rhoi bri i'r iaith a chaniatáu ei thwf.

i) Y Sector Gyhoeddus

Mae'r sector gyhoeddus, wrth gwrs, eisoes yn gweithredu'n unol â'r safonau iaith i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly'n lle amlwg i gychwyn. Yn ogystal â pharatoi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, credwn ei bod yr un mor bwysig symud tuag at ddefnydd cynyddol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu. Yn wir, mewn rhai ardaloedd (Môn, Ceredigion a Sir Gâr) credwn y byddai'n gwbl ymarferol sefydlu gweinyddiaeth fewnol Gymraeg, fel y gwelir eisoes yng Ngwynedd. Dyma gam sylfaenol tuag at ychwanegu gwerth i'r iaith a sefydlu ei defnydd yn feunyddiol ymysg staff Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd yn ogystal â'r cyflogwyr, megis darparwyr gofal, sy'n gweithredu dan gontract i'r cyflogwyr hyn.

ii) Cymorth i ddysgu'r Gymraeg

Yn unol â'n sylwadau ar addysg uchod, credwn mai buddsoddiad cadarn yn nyfodol y Gymraeg fyddai gwariant ar ddysgu a gloywi iaith gweithwyr y sector gyhoeddus. Mae gwariant i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gwaith yn ddilyniant naturiol i fuddsoddiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg gan roi gwerth economaidd iddi fel sgil yn ogystal â sicrhau ei defnydd.

Yn amlwg, byddai'r ymrwymiad i ehangu dysgu'r Gymraeg i weithwyr addysg a'r sector gyhoeddus yn golygu buddsoddiad ychwanegol yng nghapasiti'r Ganolfan Dysgu'r Gymraeg a darparwyr gwersi'r sefydliadau unigol.

Cefnogi Parhad a Ffyniant Economaidd y Fro Gymreig

Yn dilyn Brexit a Covid, mae'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf ac yn gyfrwng cymunedol yn wynebu heriau hynod o ddyrs. Mae hyn yn cynnwys ymdopi â thirwedd economaidd ansicr yn ogystal ag argyfwng tai, sy'n golygu ei bod hi'n anodd, os nad amhosibl, i bobl ifanc allu fforddio aros yn eu cymunedau brodorol. Nid materion ieithyddol yn unig yw'r rhain, wrth gwrs, ond dengys sut y gall polisiâu ehangach effeithio ar hyfywedd y Gymraeg a bod angen ystyried hynny wrth gynllunio a phennu cyllid ar draws holl waith y Llywodraeth.

i) Buddsoddi yn nyfodol cymunedau'r Gymraeg

Byddwn yn galw am fuddsoddiad sylweddol yn yr ardaloedd rheiny sy'n wynebu dyfodol anghynladwy o safbwynt tai a chyfleoedd i'r boblogaeth leol. Byddai'n bosib, er enghraifft, ehangu ar gynllun Arfor, a llunio strategaeth hirdymor i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth yr ardaloedd hyn. Yn amlwg, byddai cynllun o'r fath yn galw am fuddsoddiad digonol a hirdymor, yn hytrach na'r model grantiau a ddatblygwyd eisoes. Credwn, yn sgil datblygiadau cynddeiriog y ddwy flynedd ddiwethaf, fod hwn yn faes sy'n galw am wariant strategol, nid yn unig er lles y Gymraeg, ond er hyfywedd economaidd a hunaniaeth y cymunedau dan sylw.

Sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol i gynnal y Gymraeg

Cyflwynodd yr adroddiad diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg ddarlun digalon o'r niwed a wnaethpwyd i rwydweithiau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn sgil Covid. Er i arian gael ei glustnodi i leddfu rhai o'r effeithiau hyn, credwn drachefn fod hon yn sefyllfa sy'n galw am ymateb a gwariant strategol, hirdymor fyddo'n cyflawni llawer mwy yn y pen draw.

i) Ail-ystyried Canolfannau Iaith

Yn dilyn yr ergyd a laniodd Covid ar rwydweithiau Cymraeg ledled Cymru, credwn y byddai'n amserol ail-ystyried rôl a chyfraniad Canolfannau Iaith tuag at dwf y Gymraeg. Byddwn yn argymhell buddsoddi mewn Canolfannau sy'n seiliedig ar anghenion eu cymunedau a sicrhau hynny drwy ymgynghoriadau trwyadl er mwyn i'r Canolfannau fod yn addas, yn gynaliadwy ac yn gadarn ym mherchnogaeth y gymuned leol. Unwaith eto, o gynllunio'n strategol a gofalus, byddai'r Canolfannau hyn yn gyfrwng, nid yn unig i hyrwyddo'r Gymraeg drwy rwydweithio'n gymdeithasol, ond hefyd yn gyfle i gydweithio'n agos ar lefel gymunedol gyda sefydliadau Cymraeg eraill, megis y Mentrau Iaith a'r Urdd.